LLYWIAU a LLIWIAU

Mater o lywio a lliwio yw bywyd. Gwëwyd hanes pobl erioed rhwng llyw a lliw; ceir enghreifftiau o'r llyw yn gwneud lliw, ceir mil mwy o enghreifftiau o'r lliw yn gwneud llyw. Dyma'r ddeubeth sy'n gwneud synnwyr o fywyd; mwy na hynny, dyma'r ddeubeth sy'n gwneud bywyd yn fywyd. Mae bywyd yn broses ac yn batrwm – proses yn mynd ymlaen heddiw at rywbeth a berthyn i yfory; patrwm wrth ddychwelyd heddiw at rywbeth a berthyn i ddoe. Hanfod proses yw llywio; hanfod patrwm yw lliwio.

Os am lywio, y dasg yw llywio gyda'r proses, ac nid yn erbyn. Os am liwio, rhaid lliwio yn ôl gofyn y patrwm, ac nid yn erbyn y patrwm. Peth rhesymol yw hyn, ond dedfryd hanes yw mai'r peth mwyaf afresymol yw disgwyl i'r ddynoliaeth fod yn rhesymol. Gwendid pobl yw nid rhoi coch neu wyrdd, neu glas neu felyn eu hargyhoeddiad yn y patrwm, ond mynnu i'r patrwm fod yn goch, neu'n wyrdd, neu'n las, neu'n felyn i gyd. Peth rhesymol yw i ddyn beintio ei dy yn wyn – y mae harddwch yn hynny. Ond os â ati i beintio'r perthi a'r cloddiau a'r coed o gwmpas y ty yn wyn yn ogystal, wel, afresymol llwyr yw hynny.

Os yw llinyn y rhesymu hwn yn ein dwylo, ac nid am ein gwddf yn ein tagu, onid yw esboniad i holl gymhlethdodau ein byw a'n bod mewn llyw a lliw – patrwm a phroses. 'Roedd Iesu'n ymwybodol o'r broses a chynigodd ef ei hunan i'r dasg o lywio ein bywyd, cyhoedda: *"**Myfi yw'r ffordd**"* (Ioan 14:6). 'Roedd Iesu'n ymwybodol o'r patrwm a chynigodd ef ei hunan i'r dasg o liwio ein bywyd; sonia yn y Bregeth ar y Mynydd am **wyn fyd**. Cynfas yw'r gwynder i gyfraniadau amryliw pob lliw, llun a llewyrch o berson a chenedl. Mae'r gwahaniaeth rhwng campwaith a llanast yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar bwy yr ymddiriedwn lywio a lliwio ein bywyd iddo.

Gweddi

Annwyl Dduw,

A fedru di ein helpu? A fedru di ein helpu i weld y byd fel yr wyt ti'n gweld dy fyd, ein cartref – un byd, un ddynoliaeth?

Gwelwn y byd trwy lens camera'r newyddion. Llinyn clymog dryslyd o storiâu - storiâu am lofruddiaethau erchyll, adeiladau a chymunedau ar chwâl, bywydau, calonnau ac eneidiau ar chwâl. Storiâu am ddyn fel cythraul mewn croen: rhagfarnau, cynllwynion, twpdra, dialedd, cenfigen., ofn, panig, ffoi, gwadu, llwfrdra, dialedd, dagrau, brad, artaith, dirmyg, cabledd a chieidd-dra. Ni wyddom beth i'w wneud. Nid oes neb, mewn senedd, tafarn na chapel, yn medru cynnig ateb.

Annwyl Dduw, fedru di weld diwedd i hyn? Mae blodau gobaith yn gwywo a bara ffydd yn llwydo. A fyddet ddigon caredig i'n hatgoffa nad rhywbeth ar drugaredd y newyddion yw gobaith, ond rhywbeth sefydlog, diysgog - rhywbeth sydd yn gadarn ar graig yr addewid a wnaethpwyd yn Iesu Grist ein Harglwydd? Dywed wrthym eto dy fod ar waith yn rhyddhau'r greadigaeth o gaethiwed a llygredigaeth.

Os gweli di'n dda, Arglwydd, pletha'r weddi hon i'th fwriad cariadlawn. Defnyddia'r weddi hon yn rhan o'th fwriad i greu byd o gyfiawnder i'r tlawd, byd o lawnder i'r newynog, byd o frawdgarwch, a byd o heddwch.

Arglwydd, gofynnwn i ti ein cynnal gydag amynedd, penderfyniad a grym, canys cariad, gwirionedd, cyfiawnder, trugaredd a heddwch wyt ti, ein Duw.

Yn enw Iesu ein Harglwydd. Amen.